

Cartref Tregerddan

Diolch o galon i'r Parch R W Jones, blaenoriaid, aelodau a phlant yr Eglwys am eu parodrwydd i gynnal gwasanaethau yn Nhregerddan yn ystod y flwyddyn. Gwerthfawrogi eich ymroddiad yn fawr iawn ac edrychwn ymlaen at eich cwmni yn 2005.

Pob dymuniad da,
Alwen

Gwefan y Garn

Fyddech chi'n fodlon bod yn rhan o'r fenter newydd hon? Does dim angen sgiliau cyfrifiadurol arbenigol – dim ond brwdfrydedd ac ychydig o amser rhydd.

Mae Nigel Callaghan, Technoleg Taliesin Cyf., wedi llunio fframwaith i'n gwefan, yn ogystal â rhai tudalennau arbrofol.

Rydym yn chwilio am rai a fyddai'n fodlon ein helpu i gynnal y wefan mewn amrywiol ffyrdd – tynnu lluniau, cynnig syniadau, ysgrifennu pytiaau neu roi'r deunydd ar y we.

Os oes gennych ddiddordeb mewn helpu mewn unrhyw fodd, cysylltwch ag Eddie Jenkins, yr Ysgrifennydd.

Mynwent y Garn

Mae'r coed pwrdd wedi eu clirio o'r fynwent. Dylai'r beddau o gwmpas fod yn llawer glanach heb y dail a'r brigau. Dymunwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y costau. Bydd Eddie Jones yn falch o unrhyw gyfraniadau pellach.

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 13 Mawrth i:

Mr Dewi G Hughes

Bod Hywel

(828026)

dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes

14 Maes y Garn

(828662)

marian_hughes@btinternet.com

Gair o'r Garn

Cylchlythyr Eglwys y Garn,
Bow Street

Rhif 16

Calan 2005



Gweinidog

Parch R W Jones

Haddef

6 Maes Afallen

Bow Street

(01970 828006)

Ysgrifennydd

Mr Eddie Jenkins

Eryl

Llandre

Bow Street

(01970 828147)

Gair gan y Gweinidog

Peth naturiol i ni, ar ddechrau blwyddyn, yw bod yn ymwybodol o amser – ymwybodol o'r flwyddyn sydd wedi mynd heibio neu, i'r rhai hŷn efallai, ymwybodol o'r blynyddoedd sydd wedi hedfan.

Yr hyn sy'n bwysig, fodd bynnag, yw'r defnydd a wneir gennym o'r amser a gawn. Ac ni ellir edrych yn ôl dros gyfnod o flwyddyn heb sylweddoli bod rhai yn y gynulleidfa wedi defnyddio'u hamser i geisio hyrwyddo a hybu gwaith yr Eglwys, a hynny mewn sawl ffordd. Mae rhai wedi rhoi o'u ffyddlondeb i wasanaethau'r Eglwys; eraill wedi defnyddio'u talentau gwahanol mewn amrywiol ffyrdd.

Ar ddechrau blwyddyn, wrth i ni sylweddoli mai rhodd Duw i ni, ei blant, yw amser, mae'n bwysig ein bod, wrth fwrw golwg yn ôl, yn holi ein hunain 'A yw'r Eglwys, yn 2004, wedi bod ar ei hennill drwy fy mywyd i? A yw yn gryfach ar ddiwedd blwyddyn drwy fy ymdrechion, fy mhresenoldeb a'm hymroad i?'

Gan ddymuno blwyddyn newydd dda a bendithiol i bob un ohonoch.

Robert W Jones



Cofiwch am yr wylnos am 11.30 o'r gloch ar noson olaf y flwyddyn – cyfle i groesawu'r flwyddyn newydd mewn addoliad a myfyrdod, dan arweiniad ein Bugail.

Croeso cynnes i bawb

Mawrth

- 2 Cymdeithas y Chwiorydd am 2.30 o'r gloch
Dathlu Gŵyl Ddewi yn ysgoldy Bethlehem, Llandre
- 4 Cymdeithas Lenyddol y Garn
Dathlu Gŵyl Ddewi
Gŵr gwadd: John Hefin
- 6 Walford Gealy
- 10 Cyfarfod gweddi am 7 o'r gloch
- 13 Dr Terry Edwards
- 18 Cymdeithas Lenyddol y Garn
Mr John Morris, Llanddeiniol
'Llyfr Cownt Tad-cu'
- 20 *Sul y Blodau*
Bugail
Cymun yn oedfa'r hwyr 
- 25  *Dydd Gwener y Groglith*
Gwasanaeth am 10 o'r gloch
- 27 *Sul y Pasg*
Parch Gordon MacDonald
Oedfa'r hwyr i'w threfnu 


Chwefror

- 2 Cymdeithas y Chwiorydd am 2.30 o'r gloch
Kevin Davies: Gosod blodau ar thema'r Pasg
- 6 Parch Roger Thomas
- 10 Cyfarfod gweddi am 7 o'r gloch
- 13 Parch J R Jenkins
- 18 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
Dr William Williams, Capel Dewi
'Sipsi, Gwyddonydd neu Reolwr Masnach?'
- 20 Bugail
Oedfa gymun yn y bore
- 24 Cyfarfod gweddi am 7 o'r gloch
- 27 Parch Gordon MacDonald
Bugail – oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

Dymuna Mr a Mrs Trefor Lewis ddiolch yn fawr iawn i bawb am y dymuniadau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Ddiemwnt.

Diolch yn arbennig am y blodau a dderbyniwyd yn Ffair y Capel ar fore'r diwrnod pwysig.

Defosiwn



Yn dy law y mae f'amserau,
ti sy'n trefnu 'nyddiau i gyd,
ti yw lluniwr y cyfnodau,
oesoedd a blynyddoedd byd;
rho dy fendith
ar y flwyddyn newydd hon.

(Nantlais)

"Paid ag arswydo na dychryn oherwydd yr wyf fi, yr Arglwydd dy Dduw, gyda thi ple bynnag yr ei." Joshua 1:9.

Duw lôr yw perchen y dydd,
O'i wynfyd Ef a'i cenfydd;
Ni wŷr Ef am ofn na rhaid,
Na thrannoeth ar ei enaid;
Wrth olau'i fwriadau fry
Fe rydd fawredd i fory.

'Yfory' (Gwilym Tilsley)

Fi ar dy lwybr di, O Dduw,
Ti, O Dduw, yn fy nghamre i,
Dduw, bendithia'r llwybr a droediaf,
Dduw, bendithia'r pridd sydd o dan fy nhraed.

Gweddi Geltaidd

Bydded i fendith goleuni fod arnoch,
goleuni oddi allan a goleuni oddi mewn.
Bydded i fendith yr heulwen
ddisgleirio arnoch a chynhesu eich calon nes ei bod yn gloywi
fel tân mawn mawr, fel y gall y dieithryn ddyfod i gynhesu
wrtho, yn ogystal â'r cyfaill,
Ac yn awr, bydded i'r Arglwydd
eich bendithio chwi, a'ch bendithio'n hael.

Hen Fendith Wyddelig

Chwiorydd y Garn

Dymuna Pwyllgor Chwiorydd y Garn ddatgan eu diolch i'r rhai fu'n helpu ar y stondinau ac yn y blaen yn y Ffair, a hefyd i'r llu cymwynaswyr a gyfrannodd mewn nwyddau neu arian.

Cafwyd Ffair lwyddiannus iawn, a gwnaed elw o £1345.

Penderfynwyd trosglwyddo £1000 ohono i gronfa'r eglwys, a chadw'r gweddill tuag at adnewyddu'r gegin.

Grŵp Help Llaw



Ganol mis Tachwedd, aethpwyd â deugain o focsys Operation Christmas Child a chanpant o nawdd i'r ganolfan yn Wrecsam, a threuliodd Eddie a Bethan ddiwrnod ar ei hyd yno yn gweithio gyda'r gwirfoddolwyr eraill. Roedd llwyth cyntaf y Dolig yma yn gadael am Rwsia, a'r tebyg yw fod bocsys y Garn yn rhan o'r llwyth hwnnw.

Diolch o galon am bob cyfraniad, ac am waith yr aelodau yn paratoi'r bocsys mor ofalus.

Ym mis Rhagfyr, cyflwynwyd rhodd o £100 i gronfa 'Oll Dan yr Un To', sef y gronfa leol i wella cyfleusterau ar gyfer cleifion canser yn Ysbyty Bronglais.

Yn y flwyddyn newydd, bwriadwn uno fel gofalaeth unwaith eto i sicrhau 'Bwyd i Bosnia'. Bydd angen eich help arnom ni.

Shân Hayward (828268) a Bethan Jones (611502)

Ionawr

- 2** Parch Elwyn Pryse
Parch Ddr John Tudno Williams
- 5** Cymdeithas y Chwiorydd am 2.30 o'r gloch
Dr Laurence Wright yn dangos sleidiau o ffenestri lliw ac addurniadau mewn eglwysi yn Ffrainc
- 7** Cyfarfod gweddi ddechrau'r flwyddyn am 7 o'r gloch
- 9** Parch Andrew Lenny
- 13** Cyfarfod gweddi am 7 o'r gloch
- 16** Bugail
Oedfa gymun yn yr hwyr
- 17** Pwyllgor Swyddogion
- 21** Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
Noson yng nghwmni Cymdeithas y Paith, Capel Seion
- 23** Miss Delyth Morgans
Bugail
- 27** Cyfarfod gweddi am 7 o'r gloch
- 30** Parch Wiliam Owen